Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

## Cwestiynau Cyffredin

Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru

**Diweddarwyd Ionawr 2025**

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cynnwys

**Adran 1: Pob tîm yn 2025/26** ........ 3

1. Beth yw Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru? ........ 3

2. Pam mae angen Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru? ........ 4

3. Pwy all gymryd rhan yn Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru? ........ 5

4. Beth rydym yn gofyn i gontractwyr gofal sylfaenol ei wneud? ........ 6

5. Pa fath o weithgaredd a gaiff ei gynnwys fel camau gweithredu yn y fframwaith? ........ 7

6. Sut y mae'r broses asesu a gwobrwyo yn gweithio? ........ 7

7. Pa gymorth y gallaf ei ddisgwyl os ydw i'n cofrestru ar gyfer y Cynllun? ........ 8

8. Pwy sy'n rhan o'r Grŵp Arbenigol? ........ 9

9. Beth am ôl troed carbon gofal sylfaenol? ........ 10

10. Sut mae cymryd rhan? ........ 10

**Adran 2: Timau sy'n dychwelyd yn 2025-26** ........ **13**

11. Fe wnes i gofrestru fy mhractis y llynedd, a oes angen i mi ei gofrestru eto? ........ 13

12. Pam mae'r Cynllun yn cau am ran o'r flwyddyn? ........ 13

13. A allaf gario pwyntiau o flynyddoedd blaenorol y cynllun drosodd? ........ 13

14. Enillais wobr Efydd/Arian/Aur y llynedd – sut mae adeiladu ar hyn ac anelu at lefel uwch eleni? ........ 14

15. Rhagor o Wybodaeth ........ 15

# Adran 1: Pob tîm yn 2025/26

## 1. Beth yw Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru?

Mae Fframwaith a Chynllun Dyfarnu Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru yn fframwaith cynaliadwyedd amgylcheddol a chynllun dyfarnu a ddatblygwyd ar gyfer y pedwar contractwr gofal sylfaenol yng Nghymru (practis cyffredinol, fferylliaeth gymunedol, optometreg gymunedol, a gofal deintyddol sylfaenol). Rydym wedi creu animeiddiad 2-funud er mwyn rhoi trosolwg o'r Cynllun.

Mae'r fframwaith yn cyd-fynd â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru ac mae'n cynnwys dros 50 o gamau gweithredu ar draws ystod eang o gategorïau megis gwastraff a chaffael; gyda dros 30 ohonynt yn gymwys i bob lleoliad gofal sylfaenol a'r gweddill yn benodol i gontractwyr. Mae'r camau gweithredu yn cwmpasu'r gweithle, sut y mae pobl yn gweithio, a sut y maent yn dylanwadu ar eraill o ran cynaliadwyedd amgylcheddol a newid hinsawdd.

Nod y camau hyn yw helpu contractwyr gofal sylfaenol i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu harferion o ddydd i ddydd. Ni ddylai'r camau gweithredu fod yn dreth ar amser nac adnoddau ac adroddwyd bod nifer ohonynt yn gost-effeithiol yn ogystal â bod o les i'r blaned.

Mae'r fframwaith yn wirfoddol ac mae'n fan cychwyn gwych ar gyfer eich taith cynaliadwyedd ac i gymryd camau tuag at greu planed iachach. Mae agwedd wobrwyo'r Cynllun yn cynnwys y lefelau canlynol: ***Gweithio Tuag at, Efydd, Arian*** ac ***Aur***. Drwy gyflawni nifer penodol o gamau gweithredu (ac felly pwyntiau) byddwch yn symud i fyny'r lefelau – gweler isod.

| Lefel y Wobr | Camau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Gweithio Tuag at | Wedi cofrestru ond wedi cwblhau llai nag 8 cam gweithredu |
| Efydd | 8 cam gweithredu |
| Arian | 17 cam gweithredu |
| Aur | 23 cam gweithredu |

## 2. Pam mae angen Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru?

Yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi datgan ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019, mae nifer o dargedau allweddol wedi'u pennu, gan gynnwys:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sicrhau gostyngiad o 16% mewn allyriadau erbyn 2025 a 34% erbyn 2030
- Sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 ac allyriadau sero net ar gyfer pob sector erbyn 2050

Mae'r rhain wedi cael eu cefnogi gan Gynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021).

Y sector iechyd yng Nghymru sy'n gyfrifol am yr allyriadau carbon mwyaf yn y sector cyhoeddus gyda phractisau cyffredinol, fferyllfeydd cymunedol, practisau deintyddol a phractisau optometrig yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o leihau allyriadau'r sector iechyd.

Yng Nghymru, mae'r agenda Gofal Sylfaenol Gwyrddach yn cyd-fynd yn agos â'n cyd-destun polisi a deddfwriaeth. Bydd y gwaith hwn yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n cefnogi egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf drwy fabwysiadu dull gweithredu

hirdymor, cydweithio â rhanddeiliaid, a chynnwys y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â'r gallu i sicrhau newid.

Tan 2022, nid oedd un adnodd wedi ei ddylunio gyda chontractwyr gofal sylfaenol Cymru wrth ei wraidd i gefnogi pob un o'r pedwar contractwr gofal sylfaenol i ddod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac i gymryd camau gweithredu i gefnogi datgarboneiddio. Ar y pryd roedd fframweithiau ar lefel y DU ar gyfer ymarfer cyffredinol a deintyddiaeth, fodd bynnag roedd y rhain yn tueddu i gael eu hysgrifennu ar gyfer practisau yn Lloegr a dim ond i bractisau ymarfer cyffredinol a deintyddfeydd y maent ar gael. Nid oedd adnodd cyfatebol ar gyfer fferylliaeth gymunedol nac optometreg ar gyfer y DU gyfan, fodd bynnag mae nifer o becynnau cymorth ar gyfer y DU gyfan sy'n ymwneud â phroffesiynau penodol yn dod i'r amlwg. Nid yw'r rhain o anghenraid wedi'u teilwra i gynulleidfa gofal sylfaenol ac nid ydynt yn benodol i Gymru.

Datblygwyd fframwaith pwrpasol gan yr is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi pob contractwr gofal sylfaenol yng Nghymru, ac fe'i lansiwyd ym mis Mehefin 2022. Roedd hyn yn caniatáu i'r camau gweithredu a gynhwysir yn y fframwaith gyfateb i'r cyd-destun strategol a pholisi yng Nghymru, gan gefnogi cydweithwyr ym maes gofal sylfaenol i ddangos y dyletswyddau deddfwriaethol a pholisi yn ymwneud â chamau gweithredu amgylcheddol.

## 3. Pwy all gymryd rhan yn Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru?

Mae'r cynllun wedi'i greu'n benodol ar gyfer proffesiynau'r pedwar contractwyr gofal sylfaenol yng Nghymru (ymarfer cyffredinol, fferylliaeth gymunedol, optometreg a deintyddiaeth). Mae mynediad i'r fframwaith a'r cynllun am 2025-26 felly wedi'i gyfyngu i'r uchod ar hyn o bryd.

# 4. Beth rydym yn gofyn i gontractwyr gofal sylfaenol ei wneud?

Rydym yn gofyn i gontractwyr **gofrestru** ar y Cynllun a dechrau ar y daith tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol a datgarboneiddio. Ni chodir ffi i ymuno nac i gymryd rhan.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch sut y gellir ymgorffori'r agenda cynaliadwyedd ehangach mewn contractau gofal sylfaenol yn ddiofyn yn y dyfodol. Gall cymryd rhan yn y Cynllun hwn eleni olygu bod ymarfer cynaliadwyedd contractwyr yn fwy datblygedig os daw unrhyw ofyniad gorfodol i gydymffurfio â chamau tebyg i rym yn y dyfodol.

Bydd y fframwaith hwn yn gweithredu fel dull o gefnogi’r sector gofal sylfaenol i gyrraedd targedau uchelgeisiol y llywodraeth i bob sector fod yn garbon niwtral erbyn 2050, gan ddangos ffyrdd o gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym yn cydnabod y gall difrifoldeb y newid yn yr hinsawdd ymddangos yn frawychus ac nad yw gweithredoedd unigol weithiau'n teimlo’n ddigon, ond os byddwn i gyd yn gweithredu ar draws ystod o weithgareddau, yna bydd yr effaith gyfunol yn llawer mwy.

I grynhoi, rydym yn gofyn i gontractwyr ystyried eu cyfrifoldeb personol, proffesiynol, a sefydliadol tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni cerrig milltir datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

Gweler Blwyddlyfr Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru 2022 i ddarllen detholiad o astudiaethau achos go iawn o bractisau ledled Cymru. Hefyd, mae detholiad o adnoddau defnyddiol yma, ar gwefan Gofal Sylfaenol Un gan gynnwys astudiaethau achos fideo ar gyfer deintyddiaeth gofal sylfaenol, fferylliaeth gymunedol, ymarfer cyffredinol ac optometreg gymunedol.

## 5. Pa fath o weithgaredd a gaiff ei gynnwys fel camau gweithredu yn y fframwaith?

Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu o fewn y fframwaith yn gyffredinol i unrhyw ddarparwr gofal iechyd sylfaenol ac felly gallai pob contractwr gofal sylfaenol annibynnol ac unrhyw wasanaeth cymunedol eu rhoi ar waith e.e. defnyddio bylbiau golau sy'n arbed ynni. Fodd bynnag, mae'r fframwaith hefyd yn cynnwys isadran o gamau gweithredu sy'n benodol i bob lleoliad e.e. ymarfer cyffredinol, deintyddiaeth gofal sylfaenol, optometreg gymunedol, a fferylliaeth gymunedol.

Datblygwyd y camau gweithredu yn seiliedig ar nifer o ffactorau:

- Cyfatebiaeth â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru
- Adborth gan y Grŵp Arbenigol a rhanddeiliaid allweddol eraill
- Profiadau'r timau a gofrestrodd yn 2024, 2023 a 2022 a'r safleoedd peilot cynnar
- Cefnogi Nodau a Ffyrdd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, egwyddorion Gofal Iechyd Darbodus a nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig

## 6. Sut y mae'r broses asesu a gwobrwyo yn gweithio?

Mae is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ffurfio partneriaeth gyda'r elusen Students Organising for Sustainability UK (SOS-UK) a fydd yn rheoli'r asesiad a gwobrau'r Cynllun. Maent yn hyfforddi myfyrwyr prifysgol i ddod yn archwilwyr y dystiolaeth a gyflwynir gan bractisau. Efallai y byddant yn gofyn i gwrdd â'r practis yn rhithwir fel rhan o broses yr archwiliad ac i drafod y dystiolaeth, ac yn seiliedig ar hyn byddant yn argymell practisau ar gyfer lefel briodol y wobr.

Mae'r Cynllun yn gweithredu fel a ganlyn:

- Bydd practisau'n **cofrestru** am ddim ar y Cynllun.
- Bydd practisau'n dewis y camau gweithredu y maent am weithio arnynt.
- Bydd tystiolaeth i ddangos bod y camau gweithredu wedi cael eu cwblhau yn cael ei llwytho ar y platfform digidol gan bractisau sy'n cymryd rhan.
- Bydd y fframwaith yn parhau i fod ar agor ar gyfer cyflwyno tystiolaeth am ddwy flynedd tan yr hydref 2026.
- Ar ôl i gyfnod y fframwaith gau, bydd myfyrwyr prifysgol sy'n gwirfoddoli ar gyfer SOS-UK yn archwilio'r dystiolaeth a gyflwynwyd. Mae'r gwirfoddolwyr hyn yn cael hyfforddiant penodol gan yr elusen, sy'n darparu cymorth parhaus i fyfyrwyr ac sy'n goruchwylio'r broses gyfan.
- Gellir gwahodd practisau i gyfarfod byr rhithwir, awr o hyd gyda'r archwilwyr dan hyfforddiant i gadarnhau eu bod wedi cwblhau'r camau gweithredu ac egluro eu tystiolaeth.
- Bydd lefelau'r gwobrau yn seiliedig ar gwblhau camau gweithredu yn llwyddiannus e.e. 8, 17 a, 23 fel yr esbonnir uchod.
- Rhoddir pecyn asedau ac e-dystysgrifau i bob practis ar ôl cwblhau lefel dyfarniad yn llwyddiannus.

**Felly, gall practisau ennill gwobr efydd drwy roi dim ond 8 cam gweithredu ar waith.**

## 7. Pa gymorth y gallaf ei ddisgwyl os ydw i'n cofrestru ar gyfer y Cynllun?

Bydd is-adran Gofal Sylfaenol ar gael i ateb unrhyw gwestiynau sydd gan bractisau ynglŷn â chymryd rhan yn y Cynllun. Gallwch gysylltu â ni drwy anfon e-bost at greenerprimarycare@wales.nhs.uk. Yn yr un modd, bydd SOS-UK yn barod i ymateb i unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â'r fframwaith ar-lein drwy gysylltu â celine.clark@sos-uk.org.

Bydd practisau sy'n cymryd rhan yn y Cynllun hefyd yn cael:

- Cymorth, awgrymiadau a syniadau drwy e-Fwletin misol y Cynllun.

- Gwahoddiad i gyfarfod galw heibio misol 30-munud o hyd dros TEAMs gyda'r is-adran Gofal Sylfaenol a SOS-UK i drafod unrhyw faterion a/neu gysylltu â phractisau eraill sy'n cymryd rhan.
- Cyfle i ennill gwobr 'Tîm y Mis' y Cynllun, gyda'r practis buddugol yn cael plannu coeden yn ei enw.

## 8. Pwy sy'n rhan o'r Grŵp Arbenigol?

Sefydlwyd y Grŵp Arbenigol ym mis Hydref 2021 i roi cyngor ar ddyluniad a datblygiad y Cynllun. Mae'r Grŵp yn hyrwyddo'r Cynllun a gofynnir i aelodau annog contractwyr i fod yn rhan ohono. Mae'r grŵp arbenigol yn cyfarfod tua'r flwyddyn, ymgynghorir â'r Aelodau a gofynnir iddynt am gyngor rhwng cyfarfodydd os yw'n briodol ac yn angenrheidiol.

Mae'r Grŵp yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys arweinwyr proffesiynol o Lywodraeth Cymru, cyrff proffesiynol yng Nghymru, a chyrff contractwyr. Mae asiantaethau eraill sy'n gallu cynnig cymorth i alluogi gofal sylfaenol i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy hefyd wedi'u cynnwys fel rhan o'r grŵp, er enghraifft, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae nifer o glinigwyr hefyd yn aelodau o'r Grŵp.

Mae'r Grŵp Arbenigol yn cyfarfod unwaith y flwyddyn. Ymgynghorir â'r Aelodau a gofynnir am iddynt am gyngor rhwng cyfarfodydd os yw hynny'n briodol ac yn angenrheidiol.

## 9. Beth am ôl troed carbon gofal sylfaenol?

Un o'r camau cyntaf y gallai lleoliadau gofal sylfaenol fod eisiau meddwl amdano yw cyfrifo eu hôl troed carbon presennol er mwyn helpu i ganfod ffyrdd o leihau eu hallyriadau carbon.

Canfu adolygiad o gyfrifianellau carbon a gynhaliwyd gan is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru rai cyfrifiadau ôl troed carbon sy'n addas i'w defnyddio gan fusnesau bach a chanolig/sefydliadau bach a allai fod fwyaf perthnasol i'w defnyddio gan bractisau gofal sylfaenol unigol.

Dangosodd ein canfyddiadau nad oes un cyfrifiannell carbon am ddim sy'n ystyried yr holl ffactorau sy'n bodloni ei ddefnydd ar draws y pedwar lleoliad ym maes gofal sylfaenol. Fodd bynnag, mae pob un yn rhannol addas i'w defnyddio gan leoliadau gofal sylfaenol:

- Gweler cynaladwyedd cyfrifiannell ôl Troed Carbon Ymarfer Cyffredinol
- Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon yr Ymddiriedolaeth Garbon
- Cyfrifiannell Ôl Troed Carbon Arwr yr Hinsawdd

## 10. Sut mae cymryd rhan?

Os hoffech gymryd rhan yn Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru cliciwch **yma**. Y cam cyntaf yw cofrestru eich hun a'ch tîm; llenwch y ffurflen gofrestru drwy ddefnyddio'r ddolen uchod a rhowch eich manylion gan gynnwys eich cyfeiriad e-bost a chyfrinair unigryw.

Os chi yw'r person cyntaf yn eich practis i gofrestru, yna defnyddiwch y dudalen 'pecyn cymorth' i greu tîm newydd gydag enw a fydd yn gyfarwydd i'ch cydweithwyr. Ar ôl

sefydlu eich tîm, bydd yn ymddangos mewn cwymplen ar y dudalen gofrestru o dan 'Tîm', a gall eich cydweithwyr eraill ddewis ymuno â'ch tîm chi wrth gofrestru

Ar ôl cofrestru, gallwch fewngofnodi i'r fframwaith gan ddefnyddio'r e-bost a'r cyfrinair a osodwyd gennych. I ddechrau, defnyddiwch y dudalen 'pecyn cymorth' i edrych ar y camau gweithredu (a elwir yn feini prawf yn y pecyn cymorth) sydd wedi eu rhestru. Ar gyfer pob maen prawf, gallwch ddarllen y disgrifiad yn ogystal â darllen yr adran 'rhagor o wybodaeth' i ddeall ystyr y meini prawf a sut i'w cwblhau. Gallwch hefyd ddarllen yr adran 'Sut y byddwch chi'n cael eich archwilio' am gyngor penodol o ran pa dystiolaeth y bydd yr archwilwyr yn edrych amdani i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r meini prawf.

Dylech ddefnyddio'r adran 'Sylwadau a Thystiolaeth' sy'n gysylltiedig â phob cam gweithredu i wneud sylwadau i egluro sut rydych wedi cwblhau'r meini prawf, a/neu uwchlwytho ffeiliau tystiolaeth (e.e. e-byst, ffotograffau, neu ffeiliau dogfennau eraill). Nid oes angen i chi uwchlwytho sylwadau neu dystiolaeth fanwl ar gyfer pob maen prawf unigol (gellir darparu tystiolaeth o rai meini prawf gyda sylw os nad oes ffeiliau'n berthnasol), ond mae'n help mawr o ran y broses archwilio.

Gallwch osod 'seren' ar eich hoff gamau gweithredu a phennu camau gweithredu i aelodau'r tîm gan ddefnyddio'r swyddogaeth 'Aseinio i' o dan bob maen prawf. Wrth i chi fynd ati i gwblhau'r meini prawf, gallwch eu marcio fel 'Ar y gweill'. Ar ôl i chi orffen cwblhau maen prawf, cliciwch 'Gorffen' ar ochr dde y blwch a byddwch yn gweld pwynt yn cael ei ychwanegu at y cynnydd tuag at eich gwobr.

Mae canllaw i ddefnyddwyr y fframwaith ar gael i'ch helpu chi wrth gwblhau'r meini prawf.

Gan gwrando ar adborth gan dimau sy'n cymryd rhan, rydym wedi ymestyn y fframwaith ar-lein i fod yn agored ar gyfer cyflwyniadau tystiolaeth am ddwy flynedd, tan hydref 2026. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i'ch timau cofrestredig roi camau gweithredu sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd ar waith yn eich practis. Bydd dyddiad cau penodol yn cael ei gyfleu i bob tîm cofrestredig ar gyfer 2025/26 maes o law.

Gwnewch yn siŵr bod yr holl dystiolaeth a gyflwynir wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad cau a bennwyd, a sicrhewch eich bod yn cyflwyno'r botwm 'cyflwyno' i gwblhau'r broses. Cynhelir archwiliadau rhithwir rywbryd yn ystod hydref 2026 (dyddiad pendant i'w gadarnhau), unwaith y bydd y fframwaith wedi'i gau. Yn dibynnu ar nifer y timau sy'n cymryd rhan, bydd timau sy'n cyrraedd y trothwy pwyntiau ar gyfer lefelau dyfarnu yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn archwiliad rhithwir 1-awr anffurfiol. Mae rhagor o wybodaeth am yr agwedd archwilio a gwobrwyo i'w chael ar y fframwaith ar-lein.

# Adran 2: Timau sy'n dychwelyd yn 2025-26

## 11. Fe wnes i gofrestru fy mhractis y llynedd, a oes angen i mi ei gofrestru eto?

Nac oes, bydd eich manylion chi a'ch tîm yn dal i fod ar gael ar y fframwaith.

## 12. Pam mae'r Cynllun yn cau am ran o'r flwyddyn?

Am gyfnod byr bob blwyddyn, mae'r Cynllun yn cau er mwyn caniatáu i ni gynnal yr archwiliadau ac adolygu a gwneud unrhyw newidiadau yr ydym yn credu y byddant yn gwella'r fframwaith. Mae hyn yn ein galluogi i ddiweddaru unrhyw gamau gweithredu a sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cywir a chamau gweithredu perthnasol yn cael eu cynnwys. Ar gyfer 2025/26, bydd hyn yn ystod hydref 2026.

## 13. A allaf gario pwyntiau o flynyddoedd blaenorol y cynllun drosodd?

Nid yw pwyntiau'n cael eu cario drosodd yn awtomatig i'r flwyddyn nesaf.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r camau gweithredu bydd gofyn i chi uwchlwytho rhywfaint o dystiolaeth newydd i ddangos eich bod yn parhau i gyflawni eich camau gweithredu a'ch arferion yn gynaliadwy. Bydd hyn yn eich helpu i ddangos bod y camau wedi cael eu rhoi ar waith fel rhan o'ch gwaith o ddydd i ddydd, yn hytrach nag ymarfer 'ticio bocs' sy'n digwydd unwaith.

Ceir hefyd nifer fach o gamau gweithredu na fydd angen i ni weld tystiolaeth newydd ar eu cyfer, a chaiff y rhain eu hamlygu'n glir yn y fframwaith. Enghraifft o gam

gweithredu nad oes angen tystiolaeth bellach ar ei gyfer fyddai newid y goleuadau presennol i opsiynau mwy effeithlon o ran ynni.

## 14. Enillais wobr Efydd/Arian/Aur y llynedd – sut mae adeiladu ar hyn ac anelu at lefel uwch eleni?

Er mwyn cynnal lefel eich dyfarniad bydd angen i chi ddangos a darparu tystiolaeth bod isafswm y camau gweithredu ar gyfer y wobr honno wedi'u cyflawni yn ystod 2025/26. Ar gyfer hyn gallwch ddewis yr un camau gweithredu a roddwyd ar waith gennych yn ystod blynyddoedd blaenorol o gymryd rhan yn y fframwaith, a darparu tystiolaeth o gamau gweithredu parhaus a chynaliadwy. Gallwch ddewis camau gweithredu ychwanegol i anelu at lefel uwch y wobr neu gallwch ddewis set gyfan o gamau gweithredu gwahanol. Chi sydd i benderfynu.

Dylid nodi na fydd angen cyflwyno tystiolaeth bellach ar rai camau gweithredu a oedd yn cynnwys buddsoddiad sylweddol yn ystod blynyddoedd blaenorol ac sy’n arwain at arbedion carbon parhaus megis gosod paneli solar. Mae'r camau gweithredu y mae hyn yn berthnasol iddynt wedi'u labelu'n glir ar y fframwaith.

Er mwyn helpu practisau i wneud cynnydd i lefel nesaf y wobr rydym wedi ychwanegu rhai camau gweithredu newydd a fydd yn darparu rhywfaint o amrywiaeth ac yn eich herio ymhellach fel practis. Rydym hefyd wedi ychwanegu cam gweithredu ‘arloesi’ ychwanegol at y fframwaith sy’n golygu y gallwch ddal ennill pwynt os yw eich practis yn gweithio ar rywbeth sy’n ymwneud â chynaliadwyedd nad yw wedi’i gynnwys yn y fframwaith.

Cofiwch, nid oes angen i chi ennill 100% o’r pwyntiau i gael y wobr lefel aur.

# 15. Rhagor o Wybodaeth

Efallai y bydd gennych gwestiynau eraill am Fframwaith a Chynllun Gwobrwyo 2025/26 nad ydynt wedi eu cynnwys yn ein Cwestiynau Cyffredin. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y Cynllun, gallwch siarad â ni drwy ddefnyddio'r ffyrdd a ganlyn:

- Anfon neges e-bost at greenerprimarycare@wales.nhs.uk
- Mynd i un o’n sesiynau galw heibio misol a gynhelir gan Dîm Gofal Sylfaenol Iechyd Cyhoeddus Cymru ac SOS UK

Os hoffech weld sut y gwnaeth practisau eraill roi eu camau gweithredu ar waith yng Nghynllun 2022, gallwch ddarllen ein Blwyddlyfr neu wylio’r fideos astudiaethau achos.